

Llys a Llan

Colofn sy'n crwydro ar hyd
meysydd llên, crefydd a hanes
yng Nghaerdydd a'r Fro

Yr Athro E. Wyn James



Anna Waring, Iolo Morganwg, a Chrynwyr Castell-nedd a Chernyw (Rhan 9)

Symudodd Peter Price (1739–1821), ei wraig, Anna Tregelles (1759–1846), a'u plant, o Gernyw i ardal Castell-nedd yn 1801, pan ddaeth Peter yn rheolwr Gwaith Haearn Mynachlog Nedd. Yn y gyfres hon o erthyglau am y teulu hynod ddylanwadol hwn o ddiwydianwyr a dyngarwyr, yr ydym wedi canolbwyntio'n arbennig hyd yma ar Peter ac Anna Price a'u teulu agos, ac yn enwedig eu mab, Joseph Tregelles Price (1784–1854), a'u mab-yng-nghyfraith, Elijah Waring (1787–1857). Ond gwelwyd rhai o'u teulu ehangach hefyd yn symud i ardal Castell-nedd, ac mae'n werth oedi gydag ambell un o'r rheini.

Crybwyllwyd un ohonynt ar ddiwedd ein herthygl ddiwethaf, sef Edwin Octavius Tregelles (1806–86). Mab ydoedd i frawd Anna Price, sef Samuel Tregelles (1766–1831), a oedd yn un o'r partneriaid yn y cwmni o Grynwyr a berchnogai Ffowndri Perran yng Nghernyw a Gwaith Haearn Mynachlog Nedd. Ganed Edwin yn Aberfala (*Falmouth*), ond yn 1820, pan oedd yn 13 oed, cafodd ei brentisio'n beiriannydd i'w gefnder, Joseph Tregelles Price, a oedd erbyn hynny wedi dilyn ei dad, Peter Price, yn rheolwr y gwaith haearn ym Mynachlog Nedd.

Yn ogystal â gweithio ym Mynachlog Nedd, teithiai Edwin yn helaeth i arolygu prosiectau ar gyfer cwsmeriaid ac i gasglu archebion. Er enghraifft, bu ar ymweliad â Youghal yn Swydd Corc yn Iwerddon yn 1830, a chyfarfod yno â Jenepher Fisher (1808–44), merch i felinydd o Grynwr, a ddaeth yn wraig iddo yn 1832. A byddai teithio eang a chyson, ar draws Prydain a'r tu hwnt, yn nodwedd ar ei fywyd ar ei hyd.

Yn niwedd 1831, aeth Edwin yn beiriannydd sifil ar ei liwt ei hun. Yn y swyddogaeth honno, bu'n gyfrifol am oruchwyllo cyflwyno goleuni nwy i nifer o drefi, gan gynnwys Merthyr Tudful yn 1835. Bu hefyd yn gysylltiedig â'r gwaith o godi rhai rheilffyrdd newydd ac o ddarparu cyflenwadau dŵr a charthffosiaeth ar gyfer rhai trefi. Yna, yn 1850, ymsefydlodd yn Shotley Bridge yn Swydd Dyrham, gan ymwneud â gweithfeydd tunplat a glo yno, er iddo barhau hefyd i deithio'n eang. Ac ystyrir ef yn beiriannydd digon pwysig i haeddu cofnod yn yr *Oxford Dictionary of National Biography*.

Daeth Edwin Tregelles hefyd yn arweinydd amlwg ymhlith y Crynwyr. Cafodd ei fagu yn eu plith, ac wedi cyfnodau o ymryson enaid ac o wrthgilio ysbrydol, gallai dystio: 'Towards the middle of 1826 light seemed to force its way to my soul, and I gradually became enamoured with the love and cheered by the hope of the gospel.' Yn dilyn ei droedigaeth, dechreuodd bregethu ymhlith y Crynwyr

yn Rhagfyr 1827; fe'i gwnaed yn weinidog yn eu plith yn 1837; ac yna, yn 1853, fe'i gwelwn yn rhoi'r gorau i'w waith fel peiriannydd er mwyn ymroi yn llwyr i waith Cristnogol a dyngarol. Roedd teithio eang yn nodwedd ar ei waith Cristnogol hefyd, gan gynnwys teithiau cenhadol i'r Caribî (1843–44) a Norwy (1846).

Lluniodd ei ferch, Sarah E. Fox, fywgraffiad i'w thad a gynhwysai ddyfyniadau helaeth o'i ddyddiaduron, ei lythyrau a'i bapurau eraill. Mae'n gyfrol sylweddol o dros 450 o dudalennau. Fe'i cyhoeddwyd yn 1892 ac mae ei theitl yn adlewyrchu'r ddwy brif wedd ar ei yrfa: *Edwin Octavius Tregelles: Civil Engineer and Minister of the Gospel*. (Mae copi digidol o'r bywgraffiad ar wefan yr HathiTrust: <https://www.hathitrust.org/>.) Mae'n gyfrol hynod ddiddorol ar sawl cyfrif, nid lleiaf oherwydd y cipolwg a gawn ynddi ar rwydweithiau'r Crynwyr ym Mhrydain a'r tu hwnt.

Daeth y Crynwyr (neu 'Gymdeithas y Cyfeillion') i fod tua chanol y 17eg ganrif. Fel y Bedyddwyr a'r Annibynwyr, roedd yn un o'r carfannau Cristnogol anghydfurfiol a ymneilltuodd oddi wrth yr Eglwys Wladol (neu'r Eglwys Anglicanaidd) yn y cyfnod hwnnw, a chael eu herlid yn fawr o'r herwydd. Darlunnir yr adeg gythryblus honno yn eu hanes, a'r modd yr aeth nifer o'r Crynwyr i Bensylfania oherwydd yr erledigaeth, yn nofelau Marion Eames, *Y Stafell Ddirgel* (1969) ac *Y Rhandir Mwyn* (1972). Ac mae'n werth nodi, gyda llaw, fod Marion Eames yn gweithio i'r BBC yng Nghaerdydd pan gyhoeddwyd y nofelau hynny.

Er i'r Crynwyr fod yn gorff crefyddol cymharol fach ar hyd eu hanes, dros y blynyddoedd bu nifer arwyddocaol o'u plith yn bur ddylanwadol fel diwygwyr cymdeithasol ac fel ffigurau amlwg yn y bywyd cyhoeddus. Mae hynny'n arbennig o wir ym myd masnach, diwydiant a gwyddoniaeth, fel y tystia enwau adnabyddus megis Barclay a Lloyd ym myd bancio; Fry, Rowntree a Cadbury ym myd cynhyrchu melysion; Clark ym myd gwneud esgidiau; ac Allen & Hanbury ym myd fferylliaeth.

Un peth a nodweddi'r Crynwyr oedd bod llawer ohonynt yn perthyn i'w gilydd, yn rhannol oherwydd y rheidrwydd iddynt briodi Crynwyr eraill neu gael eu diarddel o'r mudiad. Soniodd B. M. Lodwick, er enghraifft, mewn erthygl bwysig ar deulu Peter ac Anna Price yn *The Welsh Journal of Religious History* yn 2010 am y 'Quaker "networked family" whereby the sometimes complex pattern of intermarriage among Quaker families also fostered particularly dense networks of kinship and of business and financial obligations arising from such relationships'. Cawn enghreifftiau clir o hynny yng nghofiant Edwin Tregelles, oherwydd ble bynnag yr âi ar ei deithiau, deuai ar draws Crynwyr a oedd yn bur amlwg mewn

meysydd amrywiol, a sawl un ohonynt yn perthyn iddo rywle ar hyd yr achau.

Roedd nifer da o blith ei ddeugain o gefndryd a chyfnitheroedd yn weithgar ym myd masnach a diwydiant; ac yn y cyd-destun hwnnw, yn ogystal â chyfeiriadau niferus at ei gefndryd ym Morgannwg, gwelwn yng nghofiant Edwin amryw gyfeiriadau at ei ymwneud agos â'r diwydianwyr a gwyddonwyr o Gernyw, Robert Were Fox (1789–1877) a Charles Fox (1797–1878), a oedd hefyd yn gefndryd iddo. Roedd gan y ddau ddiddordeb mawr ym myd daeareg a botaneg, ac mae'r gerddi nodedig a grëwyd ganddynt yng Nghernyw yn gyrchfannau ymwelwyr hyd heddiw.

Dechreuodd Edwin Tregelles gadw dyddiadur ym mis Medi 1828. Dywedodd yr adeg honno mai ei reswm dros wneud hynny oedd ei gred y byddai cofnodi cyflwr ei enaid yn gymorth iddo ar ei bererindod ysbrydol. O gofio bod ei gofiant yn cynnwys llawer iawn o ddyfyniadau o'i ddyddiadur a bod Edwin yn weithgar fel gweinidog ymhlith y Crynwyr, nid yw'n syndod fod materion ysbrydol a gweithgareddau uniongyrchol grefyddol yn cael cryn sylw yn y gyfrol honno. Ond ceir llawer o sôn ynddi hefyd am ei weithgarwch dyngarol, ac mae'r gyfrol ar ei hyd yn dyst i'w ymroddiad fel diwygiwr cymdeithasol. Yn y cyd-destun hwnnw, gwelwn dri maes yn codi eu pen yn gyson.

Dirwest yw un ohonynt. Roedd nifer o'r Crynwyr yn ymwneud â'r fasnach mewn cwrw – roedd gan Elijah Waring, er enghraifft, gysylltiadau â bragdy yn Llangatwg (*Cadoxton-juxta-Neath*) – ond roedd llawer ohonynt hefyd yn weithgar iawn yn y mudiad dirwest, symudiad poblogaidd a gododd yn ystod y 19eg ganrif yn ymateb i'r problemau teuluaid a chymdeithasol difrifol a achosid gan oryfed, yn enwedig yn y trefi diwydiannol newydd. Dyna'r Crynwr John Cadbury (1801–89), er enghraifft, sylfaenydd y cwmni siocled enwog yn Birmingham. Roedd yn ddirwestwr pybyr a hyrwyddai yfed siocled yn lle alcohol.

Cefnogai nifer o Grynwyr ardal Castell-nedd ac Abertawe y mudiad dirwest yn frwdfrydig, gan gynnwys aelodau o deulu Peter ac Anna Price, megis eu merch, Junia, a ddosbarthai'n ddiwyd bamffledi yn annog dirwest. Byddent yn cynnal nosweithiau darllen

tractau dirwestol ar eu haelwyd, a sonia Edwin Tregelles yn ei ddyddiadur am fynychu cyfarfodydd o'r fath. Roedd Edwin yn daer yn erbyn yfed alcohol, a'r rheswm iddo adael Gwaith Haearn Mynachlog Nedd yn niwedd 1831 oedd am nad oedd yn barod i fod ynglŷn â chynhyrchu peiriannau ar gyfer bragdy yng Nghasnewydd.

O'r ochr arall, byddai Edwin mewn cydymdeimlad llwyr â pholisi Gwaith Haearn Mynachlog Nedd o beidio â chynhyrchu arfau rhyfel. Roedd teulu Peter ac Anna Price yn selog eu cefnogaeth i'r mudiad heddwch. Byddai eu merch Junia, er enghraifft, yn dosbarthu pamffledi o blaid heddwch yr un mor ddiwyd ag y dosbarthai dractau dirwestol. Ac fel y gwelwn o'i gofiant, bu Edwin yn gyson ei gefnogaeth i achos heddwch. Fel y nodwyd mewn erthygl flaenorol yn y gyfres hon, roedd cefnder Edwin, Joseph Tregelles Price, yn un o brif sylfaenwyr y Gymdeithas Heddwch yn 1816 ac yn llywydd cyntaf y gymdeithas honno; ac un o'r pethau cyntaf a wnaeth Edwin wedi iddo gyrraedd Cymru, yn 13 oed, yn Chwefror 1820 oedd mynychu cyfarfod heddwch yn Abertawe yng nghwmni ei gefnder Joseph. Ac ymhen blynnyddoedd wedyn, gwelwn Edwin yn mynd ati i godi cronfa i gynorthwyo'r rheini a ddiodeffai yn sgil y rhyfel a dorrodd allan rhwng Ffrainc a Phwrsia yn 1870.

Pwnc arall sy'n cael sylw cyson yng nghofiant Edwin Tregelles yw ei wrthwynebiad i gaethwasiaeth. Mewn llythyr at Joseph Tregelles Price o Jamaica yn 1844, soniodd Edwin am lafur mawr Joseph o blaid heddwch a rhyddid. Meddai, 'Often have I been reminded of thy many late rides, to Swansea and back, labouring in the cause of peace and freedom, when I was thy occasional companion.' Fel y nodwyd yn yr erthygl ddiwethaf yn y gyfres hon, ymgyrchodd Joseph Price a'i deulu yn daer am flynyddoedd o blaid rhyddhau'r caethweision yn Jamaica a thiroedd tramor eraill Prydain. Ymgyrchodd Edwin yntau dros eu rhyddhau; ond y gwahaniaeth yn ei achos ef yw iddo dreulio cyfnod yn y Caribî yn 1843–44 yn gweld drosto ei hun y sefyllfa yno yn sgil rhyddhau'r caethion ddeng mlynedd ynghynt.

(I'w barhau)